1.01 To identify, and gain support for measures aimed at improving community engagement in the process being undertaken by the North Wales Residual Waste Partnership (NWRWP).

2.00 BACKGROUND

2.01 Historically, the development of new waste treatment facilities has been a contentious subject with local residents and other stakeholder groups. With the added pressure of limited time and mounting costs, local authorities cannot afford to go through lengthy planning appeals and must get the public engaged and involved as soon as possible. In the waste management industry, public engagement is now becoming standard practice and service delivery is more focused on the public as 'customers'. What can be done to make public engagement better and to ensure people understand the serious issues facing us in terms of waste treatment and disposal?

2.02 In order to overcome potential confrontation and develop productive dialogue and cooperation there is a need to ensure that the community has access to up to date, accurate information. Public involvement is an important element in any waste project from the very beginning and should continue up to and including the statutory process and throughout the duration of any facilities operating life.

2.03 The Community Engagement toolkit was produced for WAW in 2007. The toolkit provides full factual guidance document on how and when to consult key stakeholders in the planning and delivery of new waste management facilities. This guidance was produced as a result of a partnership between the Welsh Local Government Association (WLGA), Welsh Assembly Government (WAG), Environment Agency Wales (EAW) and Waste Awareness Wales (WAW).

- 2.04 However production of a toolkit alone is not enough and for LAs and other agencies to make the most of the wealth of material and information that has been produced it is essential that training is delivered. Training on the toolkit and the best ways to approach difficult and controversial service changes and planning applications will assist LAs, WAG and others through the difficult and challenging procurement and planning processes. The training on best practice will also reassure our communities that LAs are aware of their responsibilities on consultation and will engage appropriately and take account of local views and needs through the process.
- 2.05 In addition to the Community Engagement training, it is proposed NWRWP invites the Project Manager, and other key individuals, of the consortia in the South East ('Prosiect Gwyrdd') to present a briefing session of their experience and lessons learnt to date. Prosiect Gwyrdd is a similar project to the NWRWP based on a partnership of Caerphilly, Cardiff, Monmouthshire, Newport, and Vale of Glamorgan. This project is currently finalising their Outline Business Case (OBC). Creating an Outline Business Case is one of the next important steps of the NWRWP project.
- 2.06 Work is required to arrange this briefing session including selecting a date, booking a venue, preparing an agenda and identifying the attendance list.

3.00 CONSIDERATIONS

- 3.01 Waste Awareness Wales in partnership with Welsh Assembly Government (WAG), Environment Agency Wales (EAW) and the Welsh Local Government Association (WLGA) wish to commission training to ensure Local Authorities and other agencies are appropriately skilled in consultation and communication through the procurement and commissioning of contentious waste facilities.
- 3.02 The primary aim is to provide a series of training days to a range of stakeholders so all understand their role in communications/consultation, understand best practice and are equipped to plan their communications strategy alongside their procurement programmes:
- To ensure that Local Authorities and relevant agencies understand and appreciate the need for best practice community engagement and consultation through the procurement, planning and commissioning of waste facilities – particularly food waste treatment and residual waste treatment.
 - To ensure that LAs and relevant agencies fully appreciate the different tools and techniques open to them for community engagement and consultation.
 - To enable LAs and relevant agencies to understand the different communication requirements through the various procurement stages e.g. project preparation, OJEU notice, planning etc.

- To ensure the training dovetails with training and advice being provided by the WAG Procurement Office on the procurement and quality assurance process.
- 3.03 Format & Delivery Model:
- introductory session for all target audiences.
 - separate session with waste cabinet members for them to appreciate their community leadership role and what consultation means through the procurement process
 - 2-3 day training for officers heavily involved in the AD and residual procurement programmes. This could either be in blocks or over a period of weeks.
- 3.04 It is proposed that the detailed training would be held on a regional basis – North, South West - Mid and South East.
- 3.05 The programme is intended to run across 2009 -10 with a possible extension for a further year should demand and success of the programme necessitate it.
- 3.06 It is essential that training is tailored to the needs of the audience. Particular groups are:
- Local Authority: Waste cabinet members; Planning cabinet members; Planning committee members; Waste procurement lead officers; Waste procurement project directors/project managers; Waste officers; Planning officers; Procurement officers; Consultation/engagement officers; Media/PR officers
 - Other relevant bodies: EA strategy and regulatory staff; CCW staff who would be involved in planning issues; WAG waste, procurement and DET (finding appropriate site) officials; WAW officers; PUK officers (working with WAG in Procurement Office)

4.00 RECOMMENDATIONS

- 4.01 That Members agree to stakeholders attending the Community Engagement training when it becomes available.
- 4.02 That Members agree to a briefing session by Prosiect Gwyrdd's Project Manager aimed for Members and Officers involved in the NWRWP, and other identified key stakeholders.
- 4.03 That Members support attendance at future training and briefing events that are relevant and appropriate to the NWRWP project.

5.00 FINANCIAL IMPLICATIONS

- 5.01 Waste Awareness Wales: Cost of travel by attendees to a venue in north Wales

5.02 Prosiect Gwyrdd briefing: Travel, and potential accommodation cost of presenters travelling from Cardiff; cost of venue; cost of travel by attendees to a venue in north Wales. It is proposed that these costs be met from the RCAF monies assigned to the project management function.

6.00 ANTI-POVERTY IMPACT

6.01 None

7.00 ENVIRONMENTAL IMPACT

7.01 Not applicable

8.00 EQUALITIES IMPACT

8.01 Not applicable

9.00 PERSONNEL IMPLICATIONS

9.01 Member and Officer time to attend training and briefing events as appropriate.

10.00 CONSULTATION REQUIRED

10.01 NWRW Project Board

11.00 CONSULTATION UNDERTAKEN

11.01 NWRW Project Board

12.00 APPENDICES

12.01 None

LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985

Background Documents:

None

Contact Officer for Background Documents:

Not applicable

Barry Davies LL.B (Hons)
Solicitor/Cyfreithiwr
Head of Legal and Democratic Services
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a
Democrataidd



At:

Councillor Nancy Matthews, Councillor Patrick Heesom, Councillor Graham Rees, Councillor Michael Priestly, Councillor Eryl Williams, Councillor Julian Thompson-Hill, Councillor Arwell Pierce, Councillor W. G. Roberts, Councillor R. G. Parry and Councillor Goronwy Parry

Your Ref / Eich
Cyf
Our Ref / Ein NG
Cyf
Date / Dyddiad 05/03/2009
Ask for / Graham Connah
Gofynner am
Direct Dial / 01352 702336
Rhif Union
Fax / Ffacs

Annwyl Syr / Fadam,

Cynhelir cyfarfod **PARTNERIAETH TRIN GWASTRAFF GOGLEDD CYMRU yn SIAMBR Y CYNGOR, LLANGEFNI, YNYS MON, DYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2009 am 10:30 am** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Democrataidd)

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU
2. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL
3. RECRIWTIO TIM Y PROSIECT A THREFNIADAU I GEFONOG'R PROSIECT DROS DRO - (LLAFAR) - CE
4. BWLETIN AR GYNNYDD - (ADRODDIAD) - NT
5. MOU - CEFNOGAETH I DRASWEITHREDU - (LLAFAR) - NT
6. DOGFEN GYCHWYNNOL Y PROSIECT - ADBORTH LICC (LLAFAR) - NT
7. ACHOS BUSNES BRAS - (LLAFAR) - NT
8. RECRIWTIO YMGYNGHORWYR ALLANOL - (ADRODDIAD) - BD
9. CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU - BD
10. BWLETIN ARIANNOL - (ADRODDIAD) - NT

11. **BWLETIN CENEDLAETHOL – TARGEDAU AILGYLCHU
DIWYGIEDIG A CHEFNOGAETH ARIANNOL (CYFEIRIADAU’R
DYFODOL) – (ADRODDIAD) - NT**
12. **RIR – STATWS RISG – (DOGFEN) – NT**
13. **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL – (LLAFAR)**
14. **UNRHYW FUSNES ARALL**



PTGGC

Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru

EITEM AGENDA RHIF 2

Cydbwyllgor Cysgodol

Mercher, 10 Rhagfyr 2008
Bodlondeb, Conwy

PRESENNOL:

Cyng Eryl Williams (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ddinbych
Cyng Graham Rees (Is-gadeirydd)	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Cyng Mike Priestley	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Cyng Patrick Heesom	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Richard Jones	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Richard Llewelyn Ll Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Arwel Pierce	Cyngor Sir Gwynedd
Cyng Gareth Roberts	Cyngor Sir Gwynedd
Cyng Robert. G. Parry	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Julian Thompson-Hill	Cyngor Sir Ddinbych

Yn mynychu	
Enid Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Andrew Kirkham	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Alwyn Evans	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Kerry Feather	Cyngor Sir y Fflint
Barry Davies	Cyngor Sir y Fflint
Nigel Trueman	Cyngor Sir y Fflint
Colin Everett	Cyngor Sir y Fflint
Carl Longland	Cyngor Sir y Fflint
Dewi Rowlands	Cyngor Sir Gwynedd
Arthur Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Geraint Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy

Ymddiheuriadau	
Iwan Prys-Jones	Cyngor Sir Ddinbych

1. Cyflwyniadau

Cafwyd cyflwyniad personol gan bawb a oedd yn bresennol ac esboniwyd rôl pob un ar y Pwyllgor.

2. Cofnodion

Cymeradwywyd cofnodion Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2008 fel cofnod cywir.

Eglurwyd mai cost cymal cyntaf y prosiect fyddai £4 miliwn.

Nodwyd bod y Cyng R. G. Parry wedi mynychu'r cyfarfod.



2. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MC) - Cymorth/Rhyddhau Cyllid gan LICC

Roedd y pum Awdurdod Lleol wedi cydsynio i'w Prif Weithredwr Iofnodi'r MC ac roedd pob un wedi derbyn y ddogfen. Disgwylid y taliad cyntaf ac roedd LICC wedi cadarnhau cyllid i'r prosiect yn ffurfiol.

3. Cytundeb Partneriaeth

Dosbarthwyd drafft terfynol y Cytundeb Partneriaeth i'r Pwyllgor. Byddai gan bob Cyngor ddau gynrychiolydd, ag un bleidlais, yn sefyll ar y Pwyllgor a gallent benodi dirprwyon yn eu lle pe na baent yn bresennol, a allai fwrw pleidlais yn eu lle. Ni fyddai'r Pwyllgor ond yn gworwm petai un Aelod o bob Awdurdod yn mynychu. Byddai cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor a byddai'r agenda ac adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cylchredeg bum niwrnod cyn pob cyfarfod.

Cafwyd sylwadau ac ymatebion fel a ganlyn:-

- Dylid cylchredeg pob dogfen cyn y cyfarfod o un ffynhonnell er mwyn osgoi dryswch.
- Deallid bod rhai mân wallau teipio yn y Cytundeb Partneriaeth ac fe gâi'r rhain eu cywiro.
- Hepgorwyd y gair 'Gweddill' a byddai hyn yn cael ei gywiro.
- Unwaith bod cytundeb ar Achos Busnes Bras gan bob Awdurdod byddai pob Awdurdod Lleol yn arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth terfynol.

4. Cytundeb Rhwng Awdurdodau

Cychwynwyd y gwaith o baratoi'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Bydd drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

5. Strategaeth Gyfathrebu

Byddai Sir y Fflint yn arwain ar gyfathrebu a dylid cyfeirio pob ymholiad gan y wasg at Sir y Fflint. Byddai papur cefndir yn cael ei gyhoeddi ynghyd â datganiad ac amlinelliad y byddai pob Awdurdod Lleol yn eu defnyddio wrth friffio darpar gontractwyr. Roedd angen sesiynau briffio rheolaidd i Aelodau hefyd. Byddai angen i bob dogfen a gynhyrchir gan y Bartneriaeth fod ar yr un diwyg a defnyddio'r un teip.

6. Tîm y Prosiect - Methodoleg Caffael, Costau Recriwtio, Amserlenni Recriwtio

Dosbarthwyd papur yn rhoi gwybodaeth am gyflog, amserlen a chostau recriwtio.

Roedd y cyflog yn unol â chynngor gan Partnerships UK ac yn gyson â swyddi eraill yn Sir y Fflint.

Petai'r swyddi'n ymddangos yn y wasg yng nghanol Ionawr 2009 ac yn sgil cynnal cyfweiliadau gan y Panel, y gobaith oedd y gellid gwneud cynnig llafar ar unwaith i ddarpar ymgeisydd erbyn 19 Chwefror 2009.



PTGGC

Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru

Roedd cost recriwtio'n uchel, ar £21,262.04 am fod cost hysbysebu yn y papurau mawr tua £7,000; roedd yn hollbwysig hysbysebu'n genedlaethol er mwyn sicrhau cyrraedd ymgeiswyr o'r ansawdd uchaf.

Byddai'r hysbyseb yn dweud y byddai ymgeisydd sydd â dealltwriaeth o lywodraeth leol a'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol iawn.

CYTUNWYD - Cymeradwyo'r Fethodoleg Caffael, Costau Recriwtio, Amserlenni Recriwtio.

7. Ymgynghorwyr Allanol - Gwerthuso Opsiynau, Costau a Ragwelir, Amserlenni Caffael

Dosbarthwyd papur am benodi cynghorwyr allanol i'r Pwyllgor.

Dulliau Caffael

Yr opsiynau ynghyd â'r cryfderau a'r gwendidau oedd:-

1. Cytundebau Fframwaith Swyddfa Fasnach y Llywodraeth (OGC)
 - Yn meddu ar y potensial i leihau'r amserlen ar gyfer penodi cynghorwyr ar y fframwaith.
 - Roedd nifer llai o ddarpar gynigwyr.
 - Efallai y creir argraff o 'ddewis a dethol' petai cynigwyr yn cael eu dewis o wahanol gytundebau fframwaith.
 - Potensial i leihau cystadleuaeth.
 - Angen o hyd i ddangos tystiolaeth o 'Werth Gorau'.
2. Undeb Swyddogol o Broses Gaffael yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)
 - Rhagor o gystadleuaeth.
 - Yn agor y contract i nifer uwch o ymgynghorwyr potensial.
 - Potensial i estyn yr amserlen cyn penodi.
 - Angen i benderfynu ar y dull caffael.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai Opsiwn 2 yn well o ran rhoi'r gwerth gorau.

Cyn symud ymlaen gyda'r Dull Caffael cytunwyd y byddai'r cynrychiolwyr cyfreithiol o bob Awdurdod yn trafod unrhyw faterion cyfreithiol a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf

CYTUNWYD – Cymeradwyo Opsiwn 2 o'r Dull Caffael.

GWEITHRED – Derbyn caffael mewnol a cheisio cyngor cyfreithiol ar y dull caffael i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dulliau Cyswllt

Yr opsiynau ynghyd â'r cryfderau a'r gwendidau oedd:-

1. Penodi un prif ymgynghorydd sy'n penodi eraill ar gontractau.
 - Un man cyswllt ar gyfer darparu pob agwedd ar y gwasanaethau gofynnol.
 - Eiddo'r prif gynghorydd fyddai'r cyfrifoldeb – llai o risg creu 'silo'.
 - Byddai gan ymgynghorwyr berthynas broffesiynol sefydlog gyda phartneriaid cyfreithiol ac ariannol.
 - Byddai'n lleihau nifer y dogfennau tendro sydd i gael eu gwerthuso.



PTGGC

Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru

- Byddai'n rhoi cyfleoedd i'r cynghorwyr ystyried synergedd ar draws ystod o gyngor er mwyn rhoi gwerth am arian.
 - Gall pris y tendr adlewyrchu materion yn ymwneud ag is-gontractio.
 - Gall y prif ymgynghorydd ddewis partneriaid sydd heb brofiad blaenorol o gaffael cymhleth - felly llai o ddewis i'r Awdurdod sy'n contractio.
 - Efallai na chweir 'gwerth gorau' am yr elfennau unigol yn y pecyn gwaith. Fodd bynnag, y pris terfynol fyddai'r peth pwysig.
 - Anos trafod materion perfformiad gyda phartneriaid sy'n cydweithio.
 - Hoff ddull Partnership UK.
2. Gwahodd consortiwm o ymgynghorwyr a oedd yn cael eu defnyddio ar y cyd ac ar wahân.
- Byddai gan gynghorwyr berthynas broffesiynol sefydledig gyda phartneriaid Cyllidol a Chyfreithiol.
 - Yn rhoi cyfleoedd i'r cynghorwyr ystyried synergedd ar draws ystod o gyngor er mwyn rhoi gwerth am arian.
 - Yn gofyn rheoli ychwanegol ar ymgynghorwyr gan Dîm y Prosiect.
 - Roedd tendro'n gofyn am ragor o adnoddau o gofio'r tebygolrwydd y byddai'r cynnig cyfreithiol yn gynnig ar wahân.
 - Yn debygol y byddai angen eisio cynigwyr cyfreithiol ar wahân.
3. Caffael y 3 ar wahân.
- Gallai ddangos 'gwerth gorau' y llifoedd gwaith unigol.
 - Gallai drafod materion perfformiad yn rhwydd gyda'r ymgynghorydd.
 - Gallai consortia derfynu contract ymgynghorydd unigol, petai angen.
 - Byddai angen rheoli helaethach ar ymgynghorwyr er mwyn osgoi effaith y 'silo'.
 - Mae'n bosibl na fydd gan y rhai sy'n llwyddo gyda'r tendr brofiad blaenorol o gydweithio, gan olygu oedi ac amrywiadau.
 - Cynnydd yn nifer y dogfennau tendr i'w gwerthuso.
 - Mwy o bwyslais ar dîm y prosiect i adnabod yr holl lifoedd gwaith.

Teimlid y byddai Opsiwn 1 yn well am y byddai'n haws ei reoli, ac am y byddai'n cynnig un ffynhonnell o atebolrwydd; fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod meini prawf gwerthuso yn eu lle er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Byddai angen i fanylebau'r contract fod mor dynn â phosibl er mwyn sicrhau lleihau amrywiadau - a chostau ychwanegol yn eu sgil - i'r eithaf.

Byddai'r Bartneriaeth yn derbyn bwletinâu ar gynydd y contract yn rheolaidd.

CYTUNWYD – Cymeradwyo Opsiwn 1 o'r Dull Cyswllt.

CYTUNWYD - y byddai gwaith yn cael ei wneud gan Dîm y Prosiect i adnabod pecynnau pris gosod ar gyfer cyrraedd cerrig milltir penodol megis yr ABB ac elfennau yn y cymal caffael mor gywir ag y bo modd er mwyn osgoi costau ychwanegol, ond gofyn am atodlen neu gyfraddau i gymryd amrywiadau i ystyriaeth.

Cwmpas yr Ymwneud

Yr opsiynau ynghyd â'u cryfderau a'u gwendidau oedd:-

1. Penodi cynghorwyr ar gyfer yr ABB yn unig ac yn sgil yr ABB gwneud tendr newydd am y cyngor gofynnol yn ystod y cymal caffael.



PTGGC

Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru

- Yn creu cyfle i ailbrasio yn ystod y cymal caffael yn seiliedig ar ddealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n ofynnol yn ystod y cymal hwnnw.
 - Oedi yn yr amserlen oherwydd ail-dendro yn ystod y cymal caffael.
 - Diffyg cystadleuaeth yn ystod y cymal caffael, yn rhoi gwybodaeth fanwl, a fyddai wedi sefydlu'r berthynas sy'n ofynnol yn y cymal ABB.
2. Penodi ymgynghorwyr ar gyfer y cymal ABB a'r cymal caffael o'r cychwyn.
- Dilyniant cefnogaeth.
 - Dylai contract hirdymor fod yn fwy atyniadol i'r ymgynghorwyr gan alluogi'r consortia i gael gwerth ychwanegol.
 - Yn lleihau risg oedi oherwydd gorfod gwneud tendr arall yn ystod y cymal caffael.
 - Nid yw'n rhoi darlun clir o'r cyngor a fyddai'n ofynnol yn ystod y cymal caffael.

Cytunwyd y byddai Opsiwn 2 yn gwneud y prosiect yn fwy cydlynol ac y byddai'n denu'r nifer mwyaf o ymgynghorwyr.

CYTUNWYD – Cymeradwyo Opsiwn 2 ar Gwmpas yr Ymwneud.

8. Bwletin Cenedlaethol - Cefnogaeth Ariannol, Egluro Targedau

Nid oedd ymrwymiad wedi bod gan LICC o ran rhoi cymhorthdal ar gyfer 'ffioedd mynediad' i'r cyfleustra.

Roedd anhawster o ran ail-gydbwysu cynlluniau lwfansau lleol ac nid oedd penderfyniad wedi bod eto.

Cytunwyd y dylid cyflwyno crynodeb o wastraff fel dogfen gefndir i ategu'r targedau ar wastraff.

Deallid bod gwastraff bwyd wedi cael ei ddileu o'r ffigurau gwastraff ac na allai'r un o'r Awdurdodau Lleol fod yn berchen ar y cyfleusterau treulio anerobig na'u rhedeg.

Roedd rai cyrraedd rhai terfynau amser er mwyn cael derbyn yr elfen fwyaf o 22 miliwn erbyn 2011/12.

9. Cofrestr Risgiau a Materion

Dosbarthwyd y Gofrestr Risgiau a Materion i'r Pwyllgor ac fe gâi ei diweddarau yn y cyfarfod nesaf i ymgymryd i ystyriaeth arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth.

Awgrymwyd y dylid cyflwyno system goleuadau traffig i adnabod y risgiau.

CYTUNWYD – Y dylid cyflwyno'r Gofrestr Risg a Materion fwyaf diweddar i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

CYTUNWYD – Y dylid ychwanegu system goleuadau traffig i adnabod y risgiau at y ddogfen yn fuan.



10. Rhaglen Waith y Dyfodol

Gofynnwyd i aelodau'r Panel Penodiadau gadw 16 a 19 Chwefror yn rhydd yn eu dyddiaduron.

Cynhelir y cyfarfod nesaf wedi i'r Cyfarwyddwr Prosiectau gael ei benodi.

CYNGOR SIR Y FFLINT

ADRODDIAD I: **GYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL GOGLEDD CYMRU**

DYDDIAD: **11 MAWRTH 2009**

ADRODDIAD: **PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD**

PWNC: **RECRIWTIO YMGYNGHORWYR ALLANOL**

1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Rhoi ystyriaeth i benodiad ymgynghorwyr cyfreithiol ar wahân i ymgynghorwyr arbenigol eraill ar gyfer y prosiect caffael.

2.00 CEFNDIR

2.01 Mewn cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor Cysgodol ym Modlondeb ar y 10 Rhagfyr 2008 rhoddwyd ystyriaeth i'r amrywiol opsiynau ar gyfer penodi ymgynghorwyr i gynghori ar y prosiect gwastraff gweddillol. Y farn gyffredinol oedd y dylid caffael pob ymgynghorydd ar y cyd fel consortia gydag atebolwydd ar y cyd ac ar wahân.

2.02 Mae'r cyfreithwyr sy'n cynrychioli pob un o'r pum awdurdod ar y Cyd-Bwyllgor wedi cyfarfod ar ôl hynny i ystyried sut orau i ddatblygu cytundeb rhwng y partïon a fydd yn ymestyn o dderbyn neu wrthod yr achos busnes amlinellol hyd nes caiff y contract ei ddyfarnu i'r tendrwr llwyddiannus ar gyfer y prosiect trin gwastraff gweddillol. Consensws y cyfarfod, a gynghorwyd gan Hazel Nickless o Partnerships UK, oedd y byddai'n well i'r cytundeb rhwng y partïon gael ei ddatblygu gan gwmni o gyfreithwyr allanol gydag arbenigedd sylweddol mewn contractau trin gwastraff gweddillol mawr.

2.03 Rhoddwyd cyngor hefyd, er mwyn cysondeb a pharhad, y dylai'r un cyfreithwyr sy'n cynghori ar ddatblygu cytundeb rhwng yr awdurdodau fod yn brif ymgynghorydd cyfreithiol ar gyfer yr ymarferiad caffael hefyd. Teimlai Ms Nickless y byddai perthynas uniongyrchol â'i ymgynghorwyr cyfreithiol ar gontract allanol yn fwy buddiol i'r Cyd-Bwyllgor na darparu cyngor drwy gyfryngwyr.

3.00 YSTYRIAETHAU

- 3.01 Gofynnwyd am wybodaeth mewn perthynas â phenodi ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer gwaith prosiect sydd a wnelo â phum awdurdod lleol yn Ne Cymru. Maent wedi ymgymryd ag ymarferiad caffael yn ddiweddar ar gyfer cyngor cyfreithiol allanol drwy lwybr catalydd Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC). Mae'u hymgyngorwyr cyfreithiol allanol wrthi'n awr yn paratoi dau gytundeb rhwng yr awdurdodau. Bydd yr un cyntaf ar gyfer y cyfnod o gyhoeddi hysbysiad yr OJEU ar gyfer y prosiect hyd nes y cyflogir y contractwr llwyddiannus. Bydd yr ail un yn cwmpasu cyfnod y contract gyda'r tendrwr llwyddiannus. Cydnabuwyd y gallai'n hawdd fod na chaiff contractwr ei benodi yn dilyn yr ymarferiad caffael.
- 3.02 Os yw'r Cyd-Bwyllgor yn cytuno yna gellid ymgymryd ag ymarferiad caffael drwy lwybr catalydd yr OGC yn gofyn am dendrau gan y cwmnïau hynny ar y rhestr sy'n gallu dangos profiad sylweddol mewn caffael y gyfraith gyhoeddus, y broses ddialog cystadleuol a chontractau rheoli gwastraff gweddillol mawr. Gellid gofyn i gwmnïau roi pris am gyngor yn ystod y broses gyfan ond gallai'r penodiad fod fesul cam fel y byddai cyfle i derfynu os digwydd rhai pethau, e.e. petai'r Cyd-Bwyllgor yn anfodlon gyda'r cyngor a ddarparwyd cyn yr achos busnes amlinellol.
- 3.03 Os yw'r Cyd-Bwyllgor yn cytuno i gaffael ymgynghorwyr cyfreithiol allanol, o flaen llaw i benodi'r consortiwm, awgrymir y gellir darparu'r adnoddau ar gyfer y costau sy'n codi o'r penodiad o'r arian a glustnodwyd ar gyfer recriwtio ymgynghorwyr arbenigol.

4.00 ARGYMHELLION

- 4.01 Bod ymgynghorwyr cyfreithiol i'w penodi drwy lwybr catalydd yr OGC ar gyfer datblygu cytundeb rhwng yr awdurdodau ac i gynghori trwy gydol y broses gaffael.
- 4.02 Bod bwrdd y prosiect i dderbyn awdurdod dirprwyedig i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer y broses recriwtio, yn cynnwys penodi ymgynghorwyr cyfreithiol.
- 4.03 Bod y costau sy'n codi o'r penodiad i'w talu o'r arian a neilltuwyd ar gyfer ymgynghorwyr allanol.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.01 Dim ar hyn o bryd gan fod modd ymgymryd â recriwtio ymgynghorwyr cyfreithiol allanol yn fewnol ymhlith y pum awdurdod. Byddir yn darparu'r adnoddau ar gyfer cost y cyngor cyfreithiol allanol sy'n codi o'r penodiad o'r arian sydd mewn bod i'w dynnu i lawr.

6.00 EFFAITH GWRTHDLODI

6.01 Dim

7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL

7.01 Dim mewn perthynas â'r rhan yma o'r ymarferiad.

8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEB

8.01 Ddim yn berthnasol

9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.01 Bydd y prosiect yn golygu cyfranogiad sylweddol timau cyfreithiol mewnol i gefnogi a chyfarwyddo'r cyfreithwyr allanol a benodir.

10.00 YMGYNGHORI SYDD EI ANGEN

10.01 Dim

11.00 YMGYNGHORI A WNAED

11.01 Partnerships UK

12.00 ATODIADAU

12.01 Dim

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt ar gyfer Dogfennau Cefndir:

Barry Davies, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd
01352 702344, barry.davies@flintshire.gov.uk

CYNGOR SIR Y FFLINT

ADRODDIAD I: CYDBWYLLGOR GWASTRAFF DROS BEN GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD: 11 MAWRTH 2009

ADRODDIAD GAN:RHEOLWR DROS DRO'R PROSIECT

PWNC: TARGEDAU GWASTRAFF CENEDLAETHOL

1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Hysbysu aelodau am bapur diwygiedig Cyfeiriadau'r Dyfodol 2 a chreu cyd-destun i'r effaith ar Bartneriaeth Trin Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru.

2.00 CEFNDIR

2.01 AR 18 Hydref 2007 rhyddhaodd Cynulliad Cymru'r papur 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' i ymgynghori arno gyda llywodraeth leol a chenedlaethol. Cynhwysai'r papur dargedau yn amlinellu'r targedau dymunol o ran rheoli gwastraff y bwrdeistrefi.

2.02 Daeth yr ymgynghoriad i ben erbyn hyn ac mae hyn wedi arwain at sawl newid i'r targedau o ran rheoli gwastraff y bwrdeistrefi a gynigiwyd yn wreiddiol.

2.03 Ar 20 Ionawr 2009 rhyddhawyd y papur diwygiedig 'Cyfeiriadau'r Dyfodol 2' i sefydliadau llywodraeth leol a chenedlaethol i ymgynghori ymhellach arno cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ddiweddarach eleni.

3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 Targedau

Yn enw eglurder rwyg yn amlinellu'r targedau a gynigir yn llawn isod, yn hytrach na nodi dim ond y rhai sydd wedi cael eu newid. Dangosir y targedau gwreiddiol mewn cromfachau.

Targedau i bob Awdurdod Lleol	Targedau bob Blwyddyn				
	2009/10	2012/13	2015/16	2019/20	2024/25
Ailgylchu Sych	25%	52%	58%	64%	70%
Compostio	15%				
Gwastraff Bwyd a Cheginau (Lleiafswm %) fel rhan o'r targed uchod	-	(15%)	(15%)	(15%)	(15%)
		12%	14%	16%	18%
YoW (Uchafswm %) Net ¹ (Gros)	-	-	42%	36%	30%
Uchafswm maint y gwastraff dros ben am bob preswlydd bob blwyddyn	-	(-) 295 kg	(-) 258 kg	(-) 210 kg	150 kg
Lefel Uchaf Tirlenwi	-	-	-	10%	5%
(Targed lleiafswm effeithlonrwydd o 60%-65% ar gyfer cyfleusterau YoW).					
(Gwaharddiad potensial ar wastraff gan fwrdeistrefi a drinnir, a wahenir ac ar daenir ar dir o 1 Ebrill 2016).					

Dylid nodi nad yw'r targedau ailgylchu sych a chompostio ar gyfer y flwyddyn darged 2012/13 yn uwch na'r targed ar gyfer 2009/10

(3.02 Mae'r targed effeithlonrwydd lleiaf ar gyfer cyfleusterau YoW yn golygu'n ymarferol fod gofyn comisiynu cyfleusterau Gwres Pŵer Cyfun (GPC) er mwyn defnyddio'r gwres a gynhyrchir. Rhaid lleoli cyfleusterau GPC ddwy filltir ar y mwyaf i ddefnyddwyr diwydiannol pwysedd uchel a 7 i eiddo domestig. Mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar safleoedd addas.

3.03 Y prif newidiadau yw:

- Lleihad yng nghanran y gwastraff bwyd a chegin a gesglir gan 15% i 12% (2012/13) a 14% (2015/16). Mae targedau casglu wedi codi i 16% (2019/20) a 18% (2024/25)
- O 1 Ebrill 2012 ymlaen cynigir ychwanegu gwastraff llosgyddion / lludw gwastraff a charthion glanhau traethau YoW fel deunydd a ailgylchir a bydd hyn felly'n cael effaith gadarnhaol ar allu awdurdodau i gyrraedd targedau ailgylchu.
- Addaswyd y targed Ynni o Wastraff (YoW) dan dri phen:

¹ Cymerswyd y bydd tua 20% o gyfanswm y mewnbwn YoW yn lludw gwaelod.

- i. rhannu ymhlith y bartneriaeth gyfran o'r gwastraff y caniateir iddo gael ei anfon i'w drin at gyfleusterau YoW
 - ii. blaenllymu targedau ac
 - iii. ymgorffori 'lludw gwaelod' fel deunydd ailgylchir gan gynyddu canran y gwastraff y gellir ei anfon i'w drin gan leihau casglu gwastraff o fin y ffordd i'r un graddau.
- Ehangwyd y targed lleihau gwastraff (sef uchafswm y gwastraff dros ben i bob preswlydd) i gynnwys targedau ar gyfer 2012/13, 2015/16 a 2019/20. Mae'r targed o 295kg am bob preswlydd bob blwyddyn yn golygu lleihad o dros 45% yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth yn 2006/07
 - Mae CLIC wedi clustnodi gwariant refeniw ychwanegol o 2014/15 ymlaen sy'n gyfraniad penodol at ffioedd mynediad i gyfleusterau YoW.
- 3.04 Mae'r targedau diwygiedig o ran casglu gwastraff bwyd yn seiliedig ar dybiau am gyfansoddiad y gwastraff ac nid ar ddata cadarn. Mae cyfansoddiad y gwastraff yn rhan annatod o'r gwaith sydd i gael ei wneud fel rhan o'r Achos Busnes Bras (ABB) a gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo swyddogion ailgylchu gwastraff i adnabod y defnyddiau hynny lle mae cyfraddau cyfranogi neu 'adael' yn is.
- 3.05 Hysbysodd LICC Awdurdodau Lleol ei bod yn ystyried creu proffil newydd i lwfansau LAS i bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol o 2010/11 ymlaen. Roedd y targedau diwygiedig o fudd cyffredin i'r NWRWP er mai targedau lleol yw'r rhain a gafodd effaith andwyol ar Gonwy.
- 3.06 Nododd adroddiad Eumonia, a ategai'r papur Cyfeiriadau Newydd gwreiddiol, nad oedd modd cyrraedd y targedau a argymhellir ond trwy roi nifer o bwerau economaidd a deddfwriaethol yn eu lle. Yn eu plith caed: Talu Wrth Daflu (TWD) neu Daliadau Uniongyrchol ac Amrywiol (TUA), Cyfrifoldeb cynhyrchwyr a thaliadau am dirlenwi yn unol â rhanbarth Fflandrys yn Ewrop (tua £130 am bob tunnell fetrig). Ni lwyddwyd i sefydlu'r pwerau deddfwriaethol hyn eto ac nid yw'r escaladur trethi tirlenwi i gael ei arolygu tan 2011. Os nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn dod i rym bydd angen ymgynghori pellach a all oedi'r rhaglen gaffael wrth i foddelu gwastraff pellach ddigwydd.

4.00 ARGYMHELLION

- 4.01 Bod Aelodau'n cymeradwyo comisiynu dadansoddiadau cyfansoddiad gwastraff lleol i ategu targedau LICC.

- 4.02 Parhau i geisio eglurhad ar dargedau Cyfeiriadau'r Dyfodol yn benodol mewn perthynas â chasglu gwastraff bwyd a diwygio targedau gwaelodlin Awdurdodau Lleol.
- 4.03 Parhau'r deialog gwleidyddol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion yn ymwneud â chyflwyno TWD gorfodol, cyfrifoldeb cynhyrchwyr a threthi tirlenwi cynyddol a'r effaith ar dargedau cenedlaethol hebdynt.
- 4.04 Ceisio eglurhad ar ddyraniadau referniw SWMG yn achos atebion heb fod yn YoW a chyfleoedd mewn perthynas â chefnogaeth lle mae'n bosibl y bydd cyfleusterau YoW ar gael i gonsortia cyn 2014/15.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.01 Dim o ran perthynas uniongyrchol â'r targedau diwygiedig. Fodd bynnag, mae Adran yr Amgylchedd, Cynladwyedd a Thai (DESH) wedi sicrhau cyllid referniw i dalu ffioedd mynediad i gyfleusterau YoW. Darperir y cyllid o 2014/15 ymlaen.

6.00 EFFAITH AR DLODI

- 6.01 Dim

7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 7.01 Mae gwastraff tirlenwi'n creu nwyon sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang ac sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd. Bydd ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yn unol â thargedau LICC yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac ar allyriant CO2.

8.00 EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- 8.01 Amherthnasol

9.00 GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

- 9.01 Dim

10.00 YMGYNGHORI GOFYNNOL

- 10.01 Dim

11.00 YMGYNGHORI A WNEIR

11.01 Dim

12.00 ATODIADAU

12.01 Dim

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndir:

'Cwmpasu Targedau Gwastraff Bwrdeistrefi i Gymru' (cwmni Eunomia Research & Consulting)

'Cyfeiriadau Newydd mewn Rheoli Gwastraff Bwrdeistrefi yng Nghymru' (LICC)

Swyddog Cyswllt i'r Dogfennau Cefndir:

Nigel Trueman
Rheolwr Prosiect Dros Dro
01352 703120
Nigel_trueman@flintshire.gov.uk

CYNGOR SIR Y FFLINT

ADRODDIAD I: CYDBWYLLGOR GWASTRAFF DROS BEN GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD: 11 MAWRTH 2009

ADRODDIAD GAN: ARWEINYDD RHEOLI'R PROSIECT

PWNC: CYSWLLT Â'R GYMUNED

1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Adnabod mesurau, ac ennill cefnogaeth iddynt, gyda'r nod o wella cysylltiad y gymuned â'r broses a ddilynir gan Bartneriaeth Gwastraff Dros Ben Gogledd Cymru (NWRWP).

2.00 CEFNDIR

2.01 Yn y gorffennol, bu datblygiad cyfleusterau newydd i drin gwastraff yn bwnc llosg gyda thrigolion lleol a grwpiau o fudd-ddeiliaid. Oherwydd pwysau amser cyfyngedig a chostau cynyddol, ni all awdurdodau lleol fforddio wynebu apelïadau cynllunio maith a rhaid iddynt gysylltu â'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd. Yn y diwydiant rheoli gwastraff, mae cysylltu â'r cyhoedd bellach yn gwbl arferol a safonol ac mae'r gwasanaeth yn ffocysu fwy ar y cyhoedd fel 'cwsmerïaid'. Beth a ellir ei wneud i wneud cyswllt â'r cyhoedd yn well a sicrhau bod pobl yn deall y materion o bwys sy'n ein hwynebu o ran trin gwastraff a chael gwared arno?

2.02 Er mwyn osgoi gwrthdaro posibl a datblygu deialog a chydweithrediad cadarnhaol mae angen sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad i wybodaeth ddiweddar a chywir. Mae cysylltu â'r cyhoedd yn elfen o bwys mewn unrhyw brosiect gwastraff o'r dechrau un a dylai barhau hyd at y broses statudol a thrwy gydol oes unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir.

2.03 Crëwyd y pecyn Cyswllt Cymunedol gan CaW yn 2007. Mae'r pecyn yn cynnig canllaw lawn a ffeithiol ar sut a phryd i gysylltu â'r budd-ddeiliaid allweddol wrth gynllunio a darparu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Cynhyrchwyd y ganllaw hon o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) a Chraff am Wastraff (CaW).

2.04 Fodd bynnag, nid yw creu pecyn ar ei ben ei hun yn ddigon ac er mwyn i ALLau ac asiantaethau eraill wneud yn fawr o'r cyfoeth o ddeunydd a gwybodaeth a

gynhyrchwyd mae'n hanfodol darparu hyfforddiant. Bydd hyfforddiant ar y pecyn a'r ffyrdd gorau o ddelio â newidiadau anodd a dadleuol i wasanaethau ac ar geisiadau cynllunio'n cynorthwyo ALLau, LICC ac eraill trwy'r prosesau caffael a chynllunio anodd a heriol. Bydd yr hyfforddiant ar arfer gorau hefyd yn fodd i sicrhau ein cymunedau bod ALLau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cyfathrebu ac y byddant yn cysylltu'n briodol gan gymryd i ystyriaeth barn ac anghenion lleol trwy'r broses.

- 2.05 Yn ogystal â'r hyfforddiant mewn Cyswllt â'r Gymuned, cynigir y dylai NWRWP wahodd Rheolwr y Prosiect, ac unigolion allweddol eraill, o'r consortia yn y De Ddwyrain ('Prosiect Gwyrdd') i gyflwyno sesiwn briffio am eu profiad a'r gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn. Prosiect tebyg yw Prosiect Gwyrdd i'r NWRWP yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg. Mae'r prosiect hwn wrthi'n llunio'r Achos Busnes Bras (ABB) terfynol. Creu Achos Busnes Bras yw un o'r camau pwysig yn y prosiect.
- 2.06 Mae angen gwneud gwaith i drefnu'r sesiwn briffio hwn gan gynnwys pennu dyddiad, trefnu lleoliad a pharatoi agenda a llunio rhestr o'r rhai a fydd yn mynychu.

3.00 YSTYRIAETHAU

- 3.01 Mae Craff am Wastraff mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn dymuno comisiynu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill sgiliau priodol mewn ymgynghori a chyfathrebu wrth gaffael a chomisiynu cyfleusterau gwastraff dadleuol.
- 3.02 Y prif nod yw darparu cyfres o ddiwrnodau hyfforddi i ystod o fudd-ddeiliaid fel bod pawb yn deall eu rôl o ran cyfathrebu/ymgynghori, yn deall arfer gorau ac ar dir i gynllunio'u strategaeth gyfathrebu ochr yn ochr â'u rhaglenni caffael:
 - Sicrhau bod Awdurdodau Lleol ac asiantaethau perthnasol yn deall ac yn gwerthfawrogi'r angen am gysylltu ac ymgynghori â'r gymuned gan ddefnyddio arfer gorau wrth gaffael, cynllunio a chomisiynu cyfleusterau gwastraff – yn enwedig wrth drin gwastraff bwyd a gwastraff dros ben.
 - Sicrhau bod ALLau ac asiantaethau perthnasol yn gwerthfawrogi'r gwahanol ddulliau a thechnegau sydd ar gael iddynt wrth gysylltu ac ymgynghori â'r gymuned.
 - Galluogi ALLau ac asiantaethau perthnasol i ddeall y gwahanol ofynion o ran cyfathrebu trwy'r gwahanol gamau yn y broses gaffael e.e. paratoi'r prosiect, hysbysiadau OJEU, cynllunio ayb.
 - Sicrhau bod yr hyfforddiant yn cydio wrth yr hyfforddiant a'r cyngor a ddarperir gan swyddfa Gaffael LICC ar y broses gaffael a sicrwydd ansawdd.
- 3.03 Fformat a Model Darpariaeth:

- sesiwn rhagarweiniol i bob cynulleidfa darged.
 - sesiwn ar wahân gydag aelodau'r cabinet gwastraff iddynt werthfawrogi eu rôl fel arweinwyr yn y gymuned ac ystyr ymgynghori fel rhan o'r broses gaffael
 - 2-3 diwrnod o hyfforddiant i swyddogion sy'n chwarae than flaenllaw yn yr AD a'r rhaglenni caffael dros ben. Gallai'r rhain fod ar ffurf blociau neu dros gyfnod o wythnosau.
- 3.04 Cynigir y byddai'r hyfforddiant manwl yn digwydd mewn rhanbarthau - Gogledd, De Orllewin, Canolbarth a De Ddwyrain.
- 3.05 Bwriedir i'r rhaglen redeg trwy 2009 -10 gydag estyniad posibl o flwyddyn os bydd galw a llwyddiant y rhaglen yn gwneud hynny'n angenrheidiol.
- 3.06 Mae'n hanfodol bod hyfforddiant yn berthnasol i anghenion y gynulleidfa. Y grwpiau neilltuol yw:
- Awdurdod Lleol: Aelodau'r cabinet gwastraff; Aelodau'r cabinet cynllunio; Aelodau'r pwyllgor cynllunio; Prif swyddogion y prosiect caffael gwastraff; Cyfarwyddwyr rheolwyr y prosiect caffael gwastraff; Swyddogion gwastraff; Swyddogion cynllunio; swyddogion caffael; Swyddogion ymgynghorol/cyswllt; Swyddogion y cyfryngau/Cysylltiadau Cyhoeddus
 - Cyrff perthnasol eraill: Staff strategaeth a rheoleiddio EA; Staff CCW a fyddai'n cymryd rhan mewn materion cynllunio; Swyddogion gwastraff, caffael a safleoedd priodol LICC; Swyddogion PUK (yn gweithio gyda LICC yn y Swyddfa Gaffael)

4.00 ARGYMHELLION

- 4.01 Bod yr Aelodau'n cytuno i fudd-ddeiliaid fynychu hyfforddiant mewn Cysylltiad â'r Gymuned pan fydd ar gael.
- 4.02 Bod yr Aelodau'n cytuno i sesiwn briffio gan Reolwr y Prosiect Gwyrdd ar gyfer Aelodau a Swyddogion sy'n cymryd rhan yn y NWRWP, a budd-ddeiliaid allweddol eraill a enwir.
- 4.03 Bod yr Aelodau'n mynychu sesiynau hyfforddi a briffio yn y dyfodol sy'n berthnasol i'r prosiect NWRWP.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.01 Craff am Wastraff: Cost teithio gan rai sy'n mynychu canolfan yng ngogledd Cymru
- 5.02 Papur briffio'r Prosiect Gwyrdd: Costau teithio a llety potensial i gyflwynwyr sy'n teithio o Gaerdydd, cost y ganolfan; cost teithio gan rai sy'n mynychu canolfan yng ngogledd Cymru. Cynigir y dylid talu'r costau hyn gydag arian RCAF a glustnodir ar gyfer rheoli'r prosiect.

6.00 EFFAITH AR DLODI

6.01 Dim

7.00 EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD

7.01 Amherthnasol

8.00 EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.01 Amherthnasol

9.00 GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

9.01 Amser i Aelodau a Swyddogion dderbyn hyfforddiant a mynychu sesiynau briffio yn ôl y galw.

10.00 YMGYNGHORI GOFYNNOL

10.01 Bwrdd Prosiect NWRW

11.00 YMGYNGHORI A WNEIR

11.01 Bwrdd Prosiect NWRW

12.00 ATODIADAU

12.01 Dim

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndirol:

Dim

Swyddog Cyswllt ar gyfer Dogfennau Cefndir:

Amherthnasol